

Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â chynllunio teitlau, rhestrau cydnabod, graffeg lluniau byw a phlatiau enwau a'u rhoi yn y ffilm. Gallai graffeg gynhyrchu gynnwys graffeg sy'n cael ei harosod ar ddeunydd sydd eisoes wedi'i saethu, graffeg, animeiddio neu graffeg sy'n cael ei harosod ar ddeunydd a cherddoriaeth neu sain arall sydd wedi'i saethu'n arbennig. Mae creu graffeg gynhyrchu'n cynnwys cynhyrchu a chronni syniadau a helpu i wireddu'r weledigaeth.

Dylai'r Safon hon fod yn berthnasol i unrhyw un sy'n gysylltiedig â chreu graffeg gynhyrchu.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cael gwybodaeth am yr amserlen, y llif gwaith, y gyllideb a rôl graffeg gynhyrchu o ffynonellau dibynadwy
2. cytuno ar y technegau a'r dulliau i'w defnyddio gyda'r bobl berthnasol sy'n gwneud penderfyniadau
3. datblygu ac awgrymu arddulliau graffeg gynhyrchu sy'n cyd-fynd â *genre*, naws a phroffil y cynhyrchiad neu'n ei wella
4. datblygu syniadau sy'n adrodd hanes y teitl
5. cytuno ar yr ymddangosiad a'r naws gyda chleientiaid sy'n ystyried eu gweledigaeth a'u syniadau
6. dethol neu ddylunio arddulliau sy'n gyson â'r ymddangosiad gofynnol
7. cytuno detholiad y dilyniannau o gynhyrchiadau gyda'r bobl berthnasol ar yr adeg arosod y graffeg
8. comisiynu dilyniannau ffilm neu animeiddiadau sy'n gyson ag arddull a rôl teitlau a rhestrau cydnabod
9. addasu lliw, eglurder delweddau a gwelliannau gweddol eraill i gyd-fynd â'r ymddangosiad a'r naws gan ddefnyddio dulliau graddio lliw ac artistiaid eraill pan fo angen
10. sicrhau bod graffeg gynhyrchu'n ddarllenadwy o ran ei fformat a'i hyd ac yn cydymffurfio â rheoleiddio statudol perthnasol
11. gwneud penderfyniadau critigol am ansawdd sain ac ansawdd gweledol yn erbyn safonau artistig disgwylidig
12. cynnal diogelwch ar gyfer ffeiliau a deunyddiau eraill yn unol â gofynion y cwmni

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. mathau o graffeg gynhyrchu
2. technegau arosod
3. technegau graffeg
4. teipwynebau a'u heffaith
5. ffynonellau gwybodaeth am rôl graffeg gynhyrchu, llif gwaith, cyllideb ac amserlenni a sut i'w cyrchu
6. sut i gydweithredu a chydweithio gyda chleientiaid mewn sgysiau creadigol
7. sut i addasu lliw, eglurder delweddau a gwelliannau gweadol eraill, gan gynnwys trylediad digidol a meddal
8. sut i drafod rôl graffeg gynhyrchu a dehongli'r rhain mewn termau graffigol/gweledol
9. sut i asesu ansawdd fideo a sain i safonau artistig disgwylidig
10. rheoleiddio statudol presennol, safonau gwyllo a safonau proffesiynol, cenedlaethol a rhyngwladol presennol o ran darparu a datganiadau o arfer gorau ar gyfer yr ystod o lwyfannau a chynnwys
11. gweithdrefnau'r cwmni mewn perthynas â storio ac arbed copïau o ffeiliau wrth gefn a chynnal eu diogelwch

SKSPP09



Creu graffeg gynhyrchu

| | |
|----------------------------------|--|
| Datblygwyd gan | ScreenSkills |
| Dyddiad cymeradwyo | 31 Ion 2017 |
| Dyddiad Adolygu Dangosol | 31 Ion 2020 |
| Dilysrwydd | Ar hyn o bryd |
| Statws | Gwreiddiol |
| Sefydliad cychwynnol | Creative Skillset |
| RCU gwreiddiol | SKSPP09 |
| Galwedigaethau perthnasol | Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu |
| Cyfes/Set | Ôl-gynhyrchu |
| Geiriau Allweddol | Ôl-gynhyrchu, Cynhyrchu, Ffilm, Theledu, Graffeg |
